Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

1 Gorffennaf 2008

Y galw am gyrsiau 'Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill' (SSIE) yn fwy na'r cyflenwad

Mae Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, wedi cyhoeddi adolygiad heddiw o gymwysterau Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE).

Yng Nghymru, bu cynnydd sylweddol yn nifer y gweithwyr mudol, y ffoaduriaid a'r ceiswyr lloches sydd wedi dod i mewn i'r wlad dros y degawd blaenorol. Mae'r gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu yn Saesneg yn hanfodol wrth helpu ymgartrefu a chyfathrebu'n hyderus mewn cymunedau ac yn y gweithle. Ystyrir bod cymwysterau SSIE yn gam allweddol tuag at hyn.

Canfu Estyn fod y ddarpariaeth o ran cyrsiau SSIE wedi dioddef yn sgil y galw cynyddol gan ddarparwyr, gyda bron i hanner yr holl arolygiadau yn amlygu rhai diffygion yn ansawdd cyflwyno cyrsiau a llawer yn canfod safonau addysgu gwael. Mae tystiolaeth o ddirywiad cyson dros y 2 flynedd ddiwethaf.

Dywedodd Bill Maxwell, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi: "Mae astudio ar gyfer cymhwyster SSIE yn arwydd o ymrwymiad i ddysgu Saesneg a gall fod yn borth pwysig i gymdeithas i lawer o unigolion. Mae'n galonogol bod y galw am gyrsiau mor uchel, ond rhaid gweithio'n galetach i sicrhau ansawdd yr hyfforddiant sy'n angenrheidiol.

"Er bod yr adroddiad hwn yn amlygu rhai problemau â darpariaeth SSIE, mae hefyd yn dangos i ni fod yr ymdrech i fewnfudwyr ddysgu Saesneg ac integreiddio yn uchel. Mae'n gadarnhaol bod cyfraddau cyrhaeddiad SSIE yng Nghymru, sef 70%, yn parhau i fod yn llawer uwch na lefel y cyrhaeddiad cyffredinol yn y DU, sef 50%."

Canfu Estyn fod y galw yn fwy na'r cyflenwad yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, gyda rhestrau aros yn cael eu cyflwyno mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Er gwaethaf hyn, ym mwyafrif yr arolygiadau, roedd y cyfraddau presenoldeb a chwblhau dim ond yn amrywio o fod yn wael i fod yn ddigonol.

Yn aml, cyflwynir SSIE mewn gweithleoedd, er bod y profiad a gaiff y dysgwyr yn amrywio. Mae dysgwyr yn aml yn gadarnhaol iawn ynglŷn â manteision gallu dysgu Saesneg yn y gwaith, gyda phob darparwr wedi cyflwyno o leiaf rhyw fath o SSIE yn y gweithle.

Trwy ddysgu fel hyn, mae gweithwyr yn deall diwylliant gweithle ac yn perfformio'n fwy effeithiol pan gânt wybodaeth well. Gall cyflogwyr gyfleu negeseuon pwysig, gan gynnwys y negeseuon hynny am Iechyd a Diogelwch a gwella cyfathrebu mewnol â rheolwyr a chydweithwyr.

Mae SSIE sy'n cael ei chyflwyno yn y gweithle yn aml yn rhan allweddol o ymrwymiad cyflogwyr i'r 'Adduned Cyflogwr' – sef rhan o Becyn Sgiliau Sylfaenol Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n anelu at wella llythrennedd a rhifedd ar gyfer oedolion.

Mae Estyn yn argymell:

- y dylai darparwyr SSIE weithio i wella cyfraddau presenoldeb, cwblhau a chyrhaeddiad er mwyn i fwy o ddysgwyr gael achrediad llawn. Un ffordd bosibl ymlaen yw mwy o ddefnydd o ddysgu ar gyfrifiadur.

- Bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu'r trefniadau cyllid ar gyfer SSIE ar unwaith, er mwyn i ddarparwyr allu cynllunio'n well ar gyfer y cynnydd mewn galw, ac ymateb iddo.

- Bod darparwyr yn gosod targedau sy'n annog SSIE i gael ei chyflwyno mwy mewn gweithleoedd a sicrhau mwy o ymrwymiad gan gyflogwyr.

DIWEDD

Nodiadau i Olygyddion:

- Mae Estyn, swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, yn darparu gwasanaeth arolygu a chyngor o ansawdd uchel.

- Comisiynwyd adroddiad Estyn, 'Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill: Effaith y galw cynyddol', gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Datblygwyd yr Adduned Cyflogwr Sgiliau Sylfaenol fel rhan o'r Strategaeth Genedlaethol i leihau'r nifer sylweddol o oedolion y mae eu medrau llythrennedd a rhifedd yn wael. Mae wedi'i fwriadu ar gyfer pob cwmni a sefydliad sector preifat a chyhoeddus, beth bynnag fo'u maint. Mae'n eu galluogi i ddangos eu hymrwymiad i'r Strategaeth Genedlaethol mewn ffordd gadarn.

- Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys:

    - Adroddiadau arolygu a dogfennau a data perthnasol eraill;
    - Ymweliadau â darparwyr
    - Ymweliadau â darpariaeth gweithle a chyfarfodydd â chyflogwyr;
    - Cyfweliadau â dysgwyr SSIE; a
    - Chyfarfod ag asiantaethau eraill fel cynrychiolwyr undebau llafur.

- Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Lawrie Jones
Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464